**Hawdd ei ddeall**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cronfa Ewch i Weld

## Arian i helpu plant a phobl ifanc i brofi'r celfyddydau





Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ewch i weld - dysgu creadigol drwy'r celfyddydau**'.

**Hydref 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 12**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru.** Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

**E-bost:** creative.learning@arts.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon ni beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....................................................2

Cyflwyniad.............................................................................4

Ynglŷn â'r gronfa hon..............................................................5

Yr hyn y byddwn ni'n talu amdano ..............................................6

Yr hyn na fyddwn ni'n talu amdano.............................................7

Sut i wneud cais.......................................................................8

Pryd i wneud cais.....................................................................9

Yr hyn yr ydyn ni am ei gael gennych chi...................................10

Rhagor o wybodaeth................................................................11

Geiriau anodd.........................................................................12

# Cyflwyniad

Ni yw **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Mae gynnon ni **gronfa** o'r enw **Ewch i Weld**.




Mae **cronfa** yn arian y gall pobl neu sefydliadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.



Mae'r **gronfa** hon yn rhan o'r rhaglen **Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau**.



Mae'r **gronfa** hon ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 16 mlwydd oed.




Bydd y ddogfen hon yn dweud popeth wrthych chi am y **gronfa** **Ewch i Weld**. Ac os yw'n iawn i'ch ysgol. Bydd y ddogfen hon yn dweud wrthych chi sut i wneud cais am y **gronfa** hon.

# Ynglŷn â'r gronfa hon



Rydyn ni'n meddwl bod y celfyddydau'n hwyl ac yn gyffrous i blant a phobl ifanc. Ac yn eu helpu i ddysgu.



Bydd y **gronfa** hon yn helpu ysgolion i dalu am ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol.



Gall ysgolion wneud cais am hyd at £1000 i dalu am yr ymweliadau hyn.



Mae'r **gronfa** hon ar gyfer unrhyw ysgolion awdurdod lleol yng Nghymru.



Mae llawer o ysgolion eisoes yn mwynhau ymweliadau gan ddefnyddio'r **gronfa** hon.




Dysgwch fwy am ymweliadau sydd eisoes wedi digwydd drwy glicio yma.

# Yr hyn y byddwn ni’n talu amdano




Rydyn ni’n arbennig o awyddus i helpu ysgolion nad ydyn nhw wedi cael **cronfeydd dysgu creadigol** o’r blaen.



Mae angen i chi ddweud wrthon ni sut y bydd eich ymweliad yn helpu plant a phobl ifanc.



Dyma rai pethau y gallen ni dalu amdanyn nhw:

- Costau trafnidiaeth
- Costau tocynnau
- Costau gweithdai




Ceisio cael bargeinion da ar beth bynnag rydych chi’n ei brynu.





Gallwn ni roi’r rhan fwyaf o’r arian i chi ar gyfer eich ymweliad. Ond bydd angen i chi gael ychydig oddi wrth lefydd eraill hefyd.



# Yr hyn na fyddwn ni'n talu amdano

Ni fyddwn ni'n talu am y canlynol:



- Prynu offer.
- Ymweliadau sydd eisoes wedi'u trefnu.
- Ymweliadau rydych chi wedi talu amdanyn nhw eisoes.
- Digwyddiadau y tu allan i Gymru.



- Bwyd a diod.
- Digwyddiadau yn yr ysgol.
- Pethau y gallech chi eu gwneud heb y **gronfa**.



Rydyn ni'n gwybod bod rhai ysgolion yn waeth eu byd nag eraill. Er enghraifft, mae rhai ysgolion mewn ardaloedd sy'n dlawd iawn.



Os ydych chi'n meddwl y dylen ni dalu am rywbeth rydyn ni wedi'i ddweud na fyddwn ni'n talu amdano, dywedwch wrthon ni pam.

# Sut i wneud cais




Dim ond ysgolion all wneud cais am y **gronfa** hon. Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais ar ein gwefan.

**Bydd angen i chi ddweud wrthon ni:**



- Ynglŷn â'ch ymweliad arfaethedig. Gan gynnwys y dyddiad.



- Cost yr ymweliad a faint o arian rydych chi ei eisiau gennym ni.



- O ble y cewch chi weddill yr arian sydd ei angen arnoch chi.

- Am y plant a'r bobl ifanc a fydd yn mynd ar yr ymweliad. Gan gynnwys eu hoedrannau.



- Sut bydd yr ymweliad yn helpu i ddysgu.




- Ynglŷn â'ch ysgol.

# Pryd i wneud cais



Gallwch chi wneud cais am y **gronfa** hon unrhyw bryd.





Byddwn ni'n dweud wrthych chi o fewn 4 wythnos os gallwn ni roi arian o'r **gronfa** i chi.




Dylech chi wneud cais am y **gronfa** o leiaf 5 wythnos cyn eich ymweliad.

# Yr hyn yr ydyn ni am ei gael gennych chi




Ar ôl eich ymweliad, ysgrifennwch adroddiad amdano.



Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod yr ymweliad wedi digwydd.



Ac i ddysgu o'r hyn a wnaethoch chi. Er enghraifft, pe bai'n mynd yn dda ai peidio.



Dylech chi gynnwys rhai dyfyniadau gan eich dysgwyr hefyd.



Byddwn ni'n rhoi ffurflen i chi i'ch helpu i ysgrifennu'r adroddiad hwn.




Ni fyddwn ni'n rhoi mwy o arian i chi yn y dyfodol os na fyddwch chi'n ysgrifennu adroddiad.

# Rhagor o wybodaeth



Os oes angen help arnoch chhi gyda'ch cais, cysylltwch â ni trwy e-bost: [creative.learning@arts.wales](mailto:creative.learning@arts.wales)



Rydyn ni am i bawb ddeall ein dogfennau.




Rydyn ni'n gwneud ein dogfennau mewn print bras, hawdd eu deall, braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain.




Os oes angen ein dogfennau arnoch chi mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, gofynnwch i ni.




Mae gynnon ni bolisi cyfle cyfartal. Mae hyn yn golygu ein bod ni am i bawb gael yr un cyfleoedd i weithio gyda ni.

# Geiriau anodd

## Cronfa

Mae cronfa yn arian y gall pobl neu sefydliadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.